Enw: ________________ Dyddiad: _____________

# Cyfarwyddiadol - Taith Gerdded Llangwnnadl

*Trafod testun sy'n rhoi cyfarwyddiadau - Taith Gerdded Llangwnnadl*

1. (00:18) Allwch chi feddwl am adegau pan fyddwn ni'n derbyn cyfarwyddiadau?

2. (00:28) Wnaethoch chi nodi'r enghreifftiau hyn?
3. (00:31) Dewch am dro . . .

4. (02:50) Pa wybodaeth sydd ar y map hwn a fyddai'n ddefnyddiol cyn cychwyn ar y daith?

5. (02:54) O edrych ar y mapiau pa bethau fyddech chi'n disgwyl eu gweld ar y daith?

6. (02:56) A yw'r daflen waith yn barod gennych chi?
Darllenwch y cyfarwyddiadau i ddechrau.

7. (03:18) Ble mae'r nant yn tarddu?

    A. Abermaenog
    B. Moel y Berth
    C. Traeth Penllech
    D. Rhywle arall

8. (03:26) Pa ran sy'n dangos agwedd yr awdur yma? Eglurwch eich ateb

9. (03:33) Beth yw 'bwrw cistan'? Eglurwch eich ateb.

10. (03:40) Pa rai o'r canlynol sy'n gywir?

- ☐ Cafodd llong y Stewart ei llongddryllio mewn storm
- ☐ Roedd y llong wedi hwylio o Lerpwl
- ☐ Roedd trigolion lleol wedi cymryd nwyddau o long y Stewart
- ☐ Mae sôn am ddau longddrylliad yma
- ☐ Mae adegau pan fydd hi'n bosib gweld olion y Stewart

11. (03:54) Yr hyn all ymwelwyr ei weld yn Eglwys Sant Gwynhoedl yw

    ____________________ , ____________________ a ____________________ .

12. (03:60) Ewch yn ôl at eich taflen waith.
    Ychwanegwch wybodaeth i wneud eich **cyfarwyddiadau**'n fwy diddorol.
    Defnyddiwch y symbolau sydd ym mhob blwch i ddangos ble yn y **cyfarwyddiadau** yr ydych am eu cynnwys.
13. (04:04) Beth wyddoch chi am **gyfarwyddiadau** erbyn hyn? Pa rai o'r rhain sy'n bwysig wrth roi **cyfarwyddiadau**?

- ☐ brawddegau byrion
- ☐ berfau amser gorffennol
- ☐ trefn
- ☐ ail berson y ferf
- ☐ berfenwau
- ☐ berfau gorchmynnol
- ☐ cyffelybiaethau
- ☐ cysyllteiriau
- ☐ personoli
- ☐ map neu ddiagram

14. (04:09) Cwblhewch eich taflen waith a gobeithio i chi fwynhau y daith!